



POLISI PRESENOLDEB

Ysgol Syr Hugh Owen

Llofnod Cadeirydd:

Rhian Mair

Dyddiad Mabwysiadu:

06/11/2025

Dyddiad Adolygu:

06/11/2028

POLISI PRESENOLDEB A PHRYDLONDEB

RHAGARWEINIAD

Cynhyrchwyd y polisi hwn er mwyn egluro i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol, beth yw hawliau, cyfrifoldebau a rheolau presenoldeb disgyblion mewn ysgol.

Mae'r ysgol yn credu bod presenoldeb rheolaidd yn allweddol er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn addysg briodol ac yn cael y budd mwyaf o'r cyfleoedd addysgol a gynigir. Mae cysylltiadau ystadegol rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad yn gryf a gall absenoldeb o'r ysgol gael effaith niweidiol ar gynnydd disgyblion. Yn ogystal â helpu disgyblion i gyflawni eu potensial, mae cefnogi y disgyblion sy'n colli ysgol yn allweddol wrth eu hamddiffyn a'u diogelu. Bydd y fîm cynhwysiad a'r swyddogion gweinyddol i gyd yn cydweithio er mwyn monitro presenoldeb pob disgybl a rhoi cymorth i ddisgyblion i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.

Mae dathlu llwyddiant yn rhan o bolisi'r ysgol hon. Mae presenoldeb yn ffactor tyngedfennol i yrfa ysgol gynhyrchiol a llwyddiannus. Bydd yr ysgol yn annog ac yn hybu presenoldeb lawn, 100%, gan ein holl ddisgyblion.

1. Nodau

Prif bwrpas y polisi hwn yw:

- Cyfleu gwerthoedd a disgwyliadau'r ysgol ynglŷn â materion sy'n ymwneud â phresenoldeb a phrydlondeb.
- Hyrwyddo presenoldeb da a lleihau absenoldeb, yn cynnwys absenoldeb parhaus.
- Bydd yr Ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i gyfleu i rieni a disgyblion bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd a phrydlon. Rydym yn cydnabod bod gan rieni rôl allweddol i chwarae ac mae angen sefydlu cysylltiadau cartref-ysgol cryf a systemau cyfathrebu y gellir eu defnyddio pryd bynnag mae pryder am bresenoldeb.
- Sicrhau bod pob disgyblion yn cael cyfle cyfartal i lwyddo hyd eithaf ei allu beth bynnag yw ei gefndir cymdeithasol.
- Cynorthwyo disgyblion i fynychu ysgol a mynd ati i gael gwared â'r ffactorau sy'n rhwystro disgyblion rhag dysgu a chymryd rhan trwy gydweithio â'r rhieni a phobl ifanc i ddatrys y problemau yn effeithiol.
- Amlinellu trefn weithredu'r ysgol mewn ymateb i ddiffyg presenoldeb.

2. Hawliau, Cyfrifoldeb a Disgwyliadau

Mae'r polisi hwn yn cwrdd â gofynion Y Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan. Mae'r dogfennau hyn wedi eu llunio o'r ddeddfwriaeth â ganlyn gan osod allan y pwerau a'r dyletswyddau sy'n llywodraethu presenoldeb ysgol:

- Deddf Addysg 1996
- Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010
- Ymchwiliad Pwyllgor Disgyblion a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Bresenoldeb ac Ymddygiad mewn Ysgolion (2013) ac ymateb Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth Cymru – Fframwaith Presenoldeb ar Gyfer Cymru Gyfan (2012)
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd 2013
- Canllawiau Cadw Disgyblion yn Ddiogel 2021
- Cynllun gweithredu ymddygiad a phresenoldeb diwygiedig (2011)

- Adolygiad cenedlaethol i ymddygiad a phresenoldeb (ACYP) (2008) a'r cynllun gweithredu ACYP oedd yn ganlyniad iddo
- Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion 27/2006

Yn ôl y Ddeddf Addysg 1996, y rhiant/gofalwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod plentyn iddo sydd mewn oedran ysgol gorfodol (5 – 16) yn derbyn Addysg lawn amser effeithiol sy'n briodol ar gyfer oedran, gallu a doniau'r plentyn. Gall hyn ddigwydd drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu Addysg o fath arall. Os ymddengys i'r Awdurdod Addysg Lleol nad yw plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, yna mae'r rhiant/gofalwr yn euog o drosedd o dan y Ddeddf Addysg.

Er mai'r rhiant/gofalwr sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol, pan fydd problemau'n codi o ran presenoldeb yn yr ysgol, bydd yr ysgol a'r Gwasanaeth Lles yn gweithio gyda rhieni a disgyblion i hybu presenoldeb ac i ddarparu unrhyw gymorth ychwanegol sy'n ofynnol, cyn cymryd unrhyw gamau tuag at erlyn. Bydd y fim bugeiliol a'r athrawon dosbarth i gyd yn cyd-weithio er mwyn monitro presenoldeb pob disgybl a rhoi cymorth i ddisgyblion i sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.

3.0 Rôl a chyfrifoldebau:

3.1 Ysgol Gyfan

Mae Polisi Presenoldeb Ysgol Gyfan yn un sydd angen ymrwymiad yr holl staff a gyflogir o fewn yr Ysgol, ynghyd â'r llywodraethwyr, rhieni, gofalwyr, disgyblion a swyddogion yr Awdurdod Lleol.

Mae 'Ymagwedd Ysgol Gyfan' i bresenoldeb yn ymwneud ag ystod eang o faterion ysgol eraill. Mae ein hysgol eisiau annog a hybu presenoldeb mewn cymaint o ffyrdd ac ar gyfer cymaint o'n disgyblion ni â phosib, gan ystyried cydbwysedd mesurau addas i fynd i'r afael ag anghenion y disgyblion hynny sy'n ei chael yn anodd i fynychu o dan rhai amgylchiadau. O gofio hyn, mae ymyrraeth gynnwr gyda disgyblion sy'n profi presenoldeb ysgol gwael yn hanfodol. Byddwn yn wyladwrs i'r dangosyddion cynnar ac yn gwneud asesiad trylwyr sy'n rhoi'r plentyn yn greiddiol i'r ymyrraeth.

3.2 Yr Awdurdod Lleol:

- Yn darparu cydweithrediad, trwy gefnogaeth, arweiniad ac ymgynghoriaeth i'r ysgol
- O ran hyrwyddo presenoldeb ysgol, bydd yr ALI yn cydnabod y cyd-destun cenedlaethol a blaenoriaethau llywodraeth ganolog ac yn cydbwysu hyn gyda'r angen i ymateb i'r cyd-destun lleol.
- Yn sicrhau darpariaeth ar lefel ysgol i gefnogi disgyblion unigol sydd yn profi anawsterau i fynychu'r ysgol yn rheolaidd, gan weithio gyda rhieni / gofalwyr ac asiantaethau eraill i gyflawni gwelliant ac ymrwymiad i addysg y disgybl.
- Yn sicrhau fod pob rhiant yn cwrdd â'u cyfrifoldebau cyfreithiol o ran presenoldeb ysgol.
- Datblygu arferion gweithio aml-asiantaeth effeithiol ar lefel ysgol er mwyn hwyluso ymyrraeth cynnar a gwelliant a pharhâd yn lefelau cyrhaeddiad disgyblion.
- Sydd â'r cyfrifoldeb am alluogi disgyblion a rhieni/gofalwyr sy'n profi anawster mewn cynnal presenoldeb rheolaidd a phrydlon yn yr ysgol, ac i orfodi presenoldeb ble'n briodol drwy gamau cyfreithiol. Yng Ngwynedd, ymgwymerir â'r tasgau hyn gan y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad er y bydd gwasanaethau eraill yn cynnig mewnbwn sylweddol i'r broses yn rheolaidd.

3.3 Llywodraethwyr

Mae'r Corff Llywodraethol wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb i'r 'Pwyllgor Ethos, Lles a Chymreictod' i fonitro data presenoldeb ysgol gyfan yn dymhorol. Bydd y Pwyllgor yn gwirio fod y Polisi yn cael ei weithredu'n effeithiol.

Bydd y Pwyllgor yn gyfrifol am:

- Fabwysiadu y polisi yn yr ysgol.
- Weithio'n agos gyda Dirprwy Bennaeth Cynhwysiad sydd â chyfrifoldeb am bresenoldeb.
- Herio lefelau presennol o bresenoldeb a thargedau a osodwyd gan yr ysgol ac ymateb i faterion cysylltiedig â phresenoldeb.
- Sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu ei rôl mewn perthynas a chadw data presenoldeb cyfredol a chywir, a rhoi adroddiad i'r Awdurdod Lleol/Llywodraeth Cymru yn amserol.

3.4 Pennaeth

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am:

- Weithredu y polisi yn yr ysgol
- Fonitro data absenoldeb ysgol gyfan ac adrodd i'r Corff Llywodraethol.
- Gefnogi y gweithdrefnau a'r staff wrth fonitro presenoldeb y disgyblion.
- Awdurdodi caniatâd ar gyfer gwyliau.
- Awdurdodi cyhoeddi llythyrau rhybudd hysbysiad cosb benodedig a hysbysiadau cost penodedig gan yr Awdurdod Lleol.
- Dan orfodaeth o dan Reoliad Addysg Cofrestru Disgyblion (Cymru) 2010 i hysbysu'r ALL ynghylch absenoldeb disgybl.

3.5 Dirprwy Bennaeth Cynhwysiad

- Dirprwyo ar ran y Pennaeth i arwain ar y Polisi a'r gweithdrefnau i'w gefnogi yn y cais am ragoriaeth, 100% presenoldeb.
- Gwrando a gweithredu ar lais y disgybl wrth lunio a gweithredu'r polisi.
- Arwain y Tîm Cynhwysiad a monitro data presenoldeb ysgol gyfan ynghyd â gwaith yr Arweinwyr Cyswllt/Swyddogion Gweinyddol.
- Adrodd ar faterion yn ymwneud â phresenoldeb i'r Pennaeth/Llywodraethwyr.
- Rheoli'r cydweithio gydag asiantaethau allanol gan gynnwys y Swyddog Lles er mwyn hyrwyddo presenoldeb o safon uchel.
- Arwain cyfarfodydd fel bo'r angen i drafod materion presenoldeb
- Yn cynghori ar gyhoeddi llythyrau presenoldeb a phrydlondeb ysgol ac, yn ôl yr angen, yn cynghori ar gyhoeddi hysbysiadau cost penodedig.

3.6 Arweinydd Cyswllt

- Dilyn Polisi a gweithdrefnau'r ysgol i sicrhau cydymffurfiaeth lawn o ddisgwyliadau'r ysgol yn y cais am ragoriaeth.
- Arwain y tîm o athrawon dosbarth a swyddogion gweinyddol blwyddyn trwy gynnal safonau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb.
- Cydweithio gyda'r athrawon dosbarth a swyddogion gweinyddol blwyddyn i dracio presenoldeb/prydlondeb disgyblion unigol, gan gynnwys presenoldeb/prydlondeb mewn gwersi ac ymyrryd yn briodol.

- Gweithio'n agos gyda disgyblion/rhieni/gofalwyr i gynnal safon uchel o bresenoldeb trwy ymyrryd yn briodol a defnyddio asiantaethau cefnogi i'w llawn ddefnydd.
- Cyswllt buan a rheolaidd gyda rhieni/gofalwyr i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Gwrando a gweithredu ar lais y disgybl.
- Bydd disgyblion yn cael eu trin fel unigolion a'u llais yn cael ei glywed wrth fynd i'r afael â materion o ddifffyg presenoldeb ysgol a chynllun gweithredu i'w cefnogi yn cael ei roi ar waith.

3.7 Swyddog Gweinyddol

- Cadw cofrestrau yn gyfredol ar SIMS gan wneud defnydd cywir o godau cofrestru.
- Sicrhau cyswllt buan a chofnod manwl o drafodaethau gyda rhieni/gofalwyr os yw disgyblion yn absennol.
- Cyfathrebu hefo'r Arweinydd Cyswllt ar faterion dyddiol presenoldeb/prydlondeb
- Paratoi data presenoldeb.
- Paratoi llythyrau absenoldeb dan arweiniad yr Arweinydd Cyswllt.
- Gweinyddu trefn gwobrwyo presenoldeb y flwyddyn dan arweiniad yr Arweinydd Cyswllt.
- O dan arweiniad y Pennaeth Blwyddyn, trefnu/gyrru gwaith ar gyfer y disgyblion sy'n absennol o'r ysgol am gyfnodau estynedig neu ar waharddiad tymor penodol a chadw cofnod o'r gwaith a anfonir.
- Dosbarthu unrhyw waith papur a dderbynir gan ddisgyblion i'r athrawon priodol iddo gael ei farcio/asesu.
- Rheoli cofrestr disgyblion sy'n cofrestru'n hwyr / neu yn gadael yr ysgol yn ystod y dydd.

3.8 Athro Dosbarth

- Cadw cofrestr y dosbarth yn gyfredol ar SIMS gan wneud defnydd cywir o godau cofrestru a'i arbed o fewn amser penodol.
- Cofnodi amser unrhyw ddisgybl sy'n cyrraedd yn hwyr o fewn y cyfnod cofrestru.
- Gwneud defnydd o ddata i hyrwyddo safon uchel o bresenoldeb a gwelliant tuag at y targed.
- Cyswllt dyddiol gyda'r disgyblion i adnabod a chyfeirio unrhyw rwystrau rhag codi
- Cefnogi trefn gwobrwyo presenoldeb y dosbarth dan arweiniad yr Arweinydd Cyswllt.

3.9 Athro Pwnc

- Cadw cofrestr y wers yn gyfredol ar SIMS gan wneud defnydd cywir o godau cofrestru a'i arbed o fewn amser penodol.
- Cofnodi amser unrhyw ddisgybl sy'n cyrraedd yn hwyr i'r wers o fewn y cyfnod cofrestru a delio yn ôl gweithdrefnau'r adran.

3.9 Disgyblion

- Gofalu eu bod yn mynychu'n rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer yr ysgol a'u gwarsi.
- Gwneud defnydd o adnoddau'r ysgol er mwyn monitro presenoldeb a thargedau eu hunain.
- Yn cael eu trin fel unigolion a'u llais yn cael ei glywed wrth fynd i'r afael â materion yn ymwneud â phresenoldeb a phrydlondeb.

3.10 Rhieni

- Gofalu bod eu plant yn mynychu'n rheolaidd ac yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer yr ysgol a'u gwarsi.

- Cyfrifol am sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.
- Sicrhau bod manylion cyswllt cyfredol wedi eu cyflwyno i'r ysgol i gynorthwyo cyswllt ysgol/cartref.
- Cysylltu gyda'r ysgol i esbonio pam fod plentyn yn absennol, a hynny ar fore cyntaf a phob diwrnod dilynol yr absenoldeb.
- Cysylltu â'r ysgol yn syth os oes ganddynt unrhyw bryderon fod eu plentyn yn anfodlon mynychu'r ysgol.
- Ymateb i lythyrau presenoldeb/prydlondeb yr ysgol.
- Cydweithio hefo'r ysgol ac asiantaethau allanol i wella presenoldeb.
- Gwneud defnydd o adnoddau'r ysgol er mwyn monitro a gwella presenoldeb a thargedau eu disgyblion.
- Rhieni i fynychu noson rieni a digwyddiadau eraill.
- Osgoi trefnu gwyliau yn ystod tymor ysgol a chydymffurfio hefo polisi yr ysgol oni bai am amgylchiadau arbennig sy'n cael ei gymeradwyo gan y pennaeth.

3.12 Swyddog Lles Addysg

- Mae Swyddogion Lles Addysg (SLIA) yn cydweithio'n agos gydag ysgolion a theuluoedd i ddatrys problemau presenoldeb.
- Dim ond y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad all gymryd camau cyfreithiol i orfodi presenoldeb.
- Mae nodwedd ddeuol i swydd SLIA, fel darparpwydd gwasanaeth i'r ysgol ac fel cymedrolydd rhwng y cartref a'r ysgol.
- Fodd bynnag, mae presenoldeb yn gyfrifoldeb yr ysgol gyfan a rhieni'r disgyblion. Felly dylai ysgolion ystyried y dulliau mwyaf effeithiol o adael i'r staff gydweithio â'r SLIA a'u cael i werthfawrogi rôl a chyfrifoldebau'r SLIA.
- Cyd-weithio gydag aelodau tîm cynhwysiad yr ysgol.

Cyfeirio Achos At Y Swyddog Lles Addysg:

- Mae'n anochel bod amser y SLIA yn gyfyngedig.
- Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau clir ar sut a phryd i gyfeirio at y SLIA.
- Rhaid dilyn holl drefniadau'r ysgol ar gyfer delio ag absenoldeb cyn cyfeirio at y SLIA.
- Dylid defnyddio ffurflen gyfeirio safonol SLIA (P_SLLA) bob amser i ddarparu cymaint o wybodaeth ag y bo modd.

Dylid cyfeirio'n ffurfiol os bydd disgybl yn methu mynychu'r ysgol yn barhaus am 5 diwrnod ysgol neu fwy heb reswm dilys, wedi derbyn llythyr Rhif 1 a 2 gan yr ysgol, ac heb ddangos gwelliant yn dilyn 2 gyfarfod hefo'r rhieni.

"Rhaid i bob ysgol, gan gynnwys ysgolion annibynnol, hysbysu'r ALI ar gyfnodau a gytunwyd, o enw a chyfeiriad unrhyw ddisgybl cofrestredig sy'n methu mynychu'r ysgol yn rheolaidd neu sydd wedi bod yn absennol yn barhaus. Dylai ysgolion ddarparu'r rheswm dros yr absenoldeb, os yw'n wybyddus..."

- patrwm o bresenoldeb anghyson yn parhau neu'n gwaethygu (diwrnodau achlysurol neu gyfnodau estynedig o absenoldeb)
- rhieni yn gwrthod derbyn eu cyfrifoldebau am sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol ac yn gwrthod trafod dulliau gwella presenoldeb gyda'r ysgol
- absenoldeb digyfiawnhad a ganiateir yn broblem gynyddol
- neu fod y rhieni yn gofyn am absenoldeb awdurdodedig gormodol.

TREFNIADAU OLRHAIN ABSENOLDEB

Rhaid i'r ysgol lunio gweithdrefnau effeithiol a chydabyddedig i ganfod ac ymchwilio i absenoldebau, ac i gadw cysylltiad ffurfiol wythnosol gyda'r Swyddog Lles Addysg.

4.6 Adrodd i Rieni

Bydd yr ysgol yn adrodd i rieni / gofalwyr ar bresenoldeb eu plentyn gan ddefnyddio:

- Adroddiad byw ar 'Class Charts'
- Adroddiadau interim bob hanner tymor
- Adroddiad llawn statudol blynyddol

5.0 Absenoldeb

Mathau o absenoldeb

Mae'n hanfodol pwysleisio'r ddau fath o absenoldeb: 'awdurdodedig' ac 'anawdurdodedig', ac y gall absenoldeb anawdurdodedig arwain at alw am gymorth y Swyddog Lles Addysg ac o bosibl, yn y pen draw, i erlyn y rhieni yn y Llys Ynadon o dan Adran 444 Deddf Addysg 1996, neu gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig o dan Adran 444A a 444B Deddf Addysg 1996.

Rhaid i bob absenoldeb gael ei esbonio gan neges destun/galwad ffôn gan y rhiant/gofalwr. Yna bydd yr ysgol yn penderfynu a ellir caniatáu'r absenoldeb ai peidio.

5.1 Absenoldeb Awdurdodedig:

Yr ysgol yn unig all awdurdodi absenoldeb. Nid oes gan rieni na'r ALI yr hawl i wneud hynny.

Dyma'r pwyntiau allweddol i ysgolion eu hystyried cyn caniatáu absenoldeb:

- Mae'n rheidrwydd cyfreithiol i blant cofrestredig o oed ysgol gorfodol, fynychu ysgol yn rheolaidd a phrydlon.
- Nid oes raid i ysgolion dderbyn esboniad rhiant/gofalwr dros absenoldeb plentyn os oes ganddynt unrhyw amheuaeth ynghylch dilysrwydd yr eglurhad.
- Dylai rhieni sylweddoli mai gan yr ysgol, a'r ysgol yn unig, y mae hawl i gytuno i blentyn fynd ar wyliau'r teulu yn ystod tymor ysgol; rhaid ystyried pob cais yn ôl amgylchiadau eithriadol y teulu.
- Dylai ysgolion bob amser ddisgwyl presenoldeb rheolaidd a phrydlon, hyd yn oed pan fyddant yn ymwybodol o anawsterau teuluol.
- Yn arferol, nid yw edrych ar ôl y tŷ, gwarchod brawd/chwaer, siopa, neu fynd am drip yn rhesymau derbyniol dros absenoldeb.

Rhaid cael eglurhad am bob absenoldeb. Os na cheir un bydd yn absenoldeb heb awdurdod.

- Pan ganiateir absenoldeb, dylai ysgolion fod yn ofalus rhag i hyn fod yn gynsail i batrymau cyffelyb o absenoldeb.
- Dylid anghymeradwyo'n bendant unrhyw dueddiad i gyrraedd yn hwyr, a thrin bod yn hwyr yn barhaus yn union fel presenoldeb anghyson.
- Dylai ysgolion feithrin perthynas weithio agos gyda'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg er mwyn hyrwyddo presenoldeb ysgol rheolaidd.

D.S. Rhaid i ysgolion fod yn ofalus wrth awdurdodi absenoldeb.

Os bydd yr ysgol yn amau'r esboniad a roddir gan rieni dylid ymchwilio'r absenoldeb a'i adael heb ei ganiatáu nes bydd y mater wedi ei esbonio a bod yr ysgol yn fodlon (dylid gwirio'r codau cofrestru). Bydd y mesur o gefnogaeth a roddir gan Wasanaeth Cymdeithasol Addysg yn dibynnu ar benderfyniad ysgol i gefnogi neu i wrthod awdurdodi absenoldeb. Os bydd ysgol wedi awdurdodi absenoldeb plentyn ni fydd achos cyfreithiol dros erlyn y rhieni.

Dyma'r math o absenoldebau sydd yn cael eu cydnabod i fod yn awdurdodedig:

Amgylchiadau awdurdodedig eraill (nas cwmpesir gan god/disgrifiad priodol arall)
Gwyliau teuluol estynedig y cytunwyd arnynt
Gwyliau teuluol y cytunwyd
Salwch
Salwch oherwydd COVID-19.
Apwyntiad meddygol neu ddeintyddol
Absenoldeb astudio
Wedi'i wahardd ond ni wneir unrhyw ddarpariaeth amgen
Diwrnod a neilltuwyd ar gyfer defodau crefyddol yn unig
Absenoldeb teithiwr

5.2 Absenoldeb heb awdurdod

Mae absenoldeb heb awdurdod yn absenoldeb sy'n digwydd heb ganiatâd gan gynrychiolydd swyddogol yr ysgol ac yn cynnwys POB absenoldeb heb esboniad.

Os bydd plentyn yn absennol gyda chaniatâd yr ysgol, waeth beth fo'r rheswm am yr absenoldeb, ni chyflawnwyd unrhyw drosedd, ac felly, mae penderfyniad yr ysgol i ganiatáu neu wrthod caniatáu absenoldeb yn ffactor o bwys mawr pan fo ALL yn ystyried erlyn.

Dyma'r math o absenoldebau sydd yn cael eu cydnabod i fod yn anawdurdodedig:

Ni roddwyd unrhyw reswm dros yr absenoldeb
Absenoldeb anawdurdodedig arall (nas cwmpesir gan godau na disgrifiadau eraill)
Gwyliau teuluol (na chytunwyd arnynt neu sesiynau sy'n ychwanegol at yr hyn y cytunwyd arno)
Hwyr ond yn cyrraedd ar ôl i'r cofrestru gau
Sesiynau heb eu rhaglennu ar gyfer disgyblion dim angen bod yn bresennol nad ydynt o oedran ysgol gorfodol

5.3 Ceisiadau am absenoldeb gan rieni

Pan fo'r rhiant / gofalwr yn cadw disgybl o'r ysgol mae'r un mor niweidiol i brofiadau addysgol disgybl ag unrhyw ffurf arall o absenoldeb. Os bydd gan staff yr ysgol reswm i amau dilysrwydd esboniad rhiant/gofalwr dros yr absenoldeb dylid ei drin fel absenoldeb heb awdurdod. Gan fod pob absenoldeb i'w drin fel un heb awdurdod oni hyd y bo'r ysgol yn cytuno ar esboniad boddhaol, mae'n bwysig fod gan ysgolion drefniadau a ddilynir yn gyson i ddilyn esboniadau ac i ddiwygio cofrestru (papur neu electronig). Byddai trefniadau o'r fath yn cynnwys cais am

gyngor meddygol gan baediatregydd ymgynghorol, iechyd ysgol, yr ymgynghorydd iechyd absenoldebau meddygol ynglŷn ag absenoldeb.

5.4 Gwyliau teuluol yn ystod tymor ysgol

Dyma ddywed Canllawiau Llywodraeth Cymru:

"Yn ystod tymor yr ysgol nid oes gan rieni hawl awtomatig i dynnu eu disgyblion o'r ysgol ar gyfer gwyliau ac mae awdurdodi yn aros yn ôl disgrisiwn y pennaeth, ond ni ddylai'r gwyliau hwn fod yn fwy na 10 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn academaidd" - Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010).

Mae amgylchiadau yn parhau yn ôl disgrisiwn y Pennaeth gan fod yr ysgol yn adnabod eu disgyblion a'u teuluoedd, ac yn y sefyllfa orau i ddod i farn. Os na fydd cymeradwyaeth, bydd y Pennaeth yn penderfynu peidio â chytuno â'r cais, yna bydd y gwyliau yn absenoldeb anawdurdodedig.

Mae tystiolaeth glir yn genedlaethol y gall cyfnod absenoldeb hir gael effaith difrifol ar gynnydd disgybl, yn arbennig y blynyddoedd sydd gydag arholiadau, felly ni fyddwn yn caniatáu absenoldeb cysylltiedig â gwyliau ar gyfer disgyblion Bl. 10 – 13.

Gofynnir i rieni/gwarcheidwyr disgyblion o Blwyddyn 7 i 9 gymryd pob ymdrech i beidio trefnu gwyliau yn ystod tymhorau'r ysgol, ac yn arbennig yn ystod cyfnodau arholiadau. Mae unrhyw gyfnod o absenoldeb yn golygu y bydd gwersi yn cael eu colli – hyn yn arwain at broblemau dal i fyny a deall y gwaith newydd a gyflwynir.

Gallai rhestr awgrymedig o amgylchiadau arbennig gynnwys:

- teuluoedd rhai sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog
- rhieni disgyblion gyda salwch sy'n cyfyngu bywyd
- teulu sydd wedi dioddef trawma difrifol
- mynychu priodas neu angladd rhywun agos at y teulu
- unrhyw amgylchiad arall sy'n cael ei ystyried yn arbennig (os gellir trefnu digwyddiad yn rhesymol y tu allan i'r tymor, yna ni fyddai'n arferol i awdurdodi absenoldeb).

Fodd bynnag, fel ymarfer da, hoffai Gwasanaethau Addysg Gwynedd i bob cais am wyliau gael ei ystyried fel amgylchiadau arbennig, gan y byddai hyn yn rhoi'r neges i rieni nad yw tynnu eu plentyn o'r ysgol yn ystod y tymor yn cael ei annog.

Hefyd atgoffa rhieni mewn ysgolion uwchradd y gall graddau TGAU yn ogystal â chanlyniadau profion ac arholiadau eraill gael eu heffeithio'n ddifrifol gan absenoldeb diangen. Mae'r gwahaniaeth rhwng llwyddiant a methiant mewn gyrfa ysgol yn dibynnu ar bresenoldeb.

Yn gyfreithiol, rhaid i rieni ofyn am ganiatâd ymlaen llaw i dynnu eu disgyblion o'r ysgol i fynd ar wyliau. Bydd caniatâd yn cael ei roi yn unol â threfniadau a wnaed gan y corff llywodraethol. Rhaid cwblhau ffurflen a ddarperir gan yr ysgol i wneud cais, yn ddelfrydol **bedair** wythnos cyn y gwyliau, a dylai'r cais gael ei wneud gan riant/rieni sydd â gofal o ddydd i ddydd am y plentyn hyd yn oed os na fyddant hwy eu hunain yn mynd ar y gwyliau.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir fod y cyfeiriad at amgylchiadau eithriadol yn golygu fod yn rhaid i riant gyflwyno achos cryf dros fynd â phlentyn o'r ysgol am wyliau yn ystod y tymor. Dylai ysgolion holi rhieni pam fod absenoldeb mor eithriadol yn angenrheidiol. Os caniateir gwyliau o'r fath, dylid eu cyfrif yn absenoldeb **awdurdodedig**. Os bydd rhieni'n

cadw disgyblion o'r ysgol am fwy na'r cyfnod a gytunwyd, neu eu bod heb ofyn caniatâd o gwbl, rhaid cyfri'r cyfnod yn wyliau **anawdurdodedig**.

Dylid ystyried y ffactorau canlynol hefyd wrth asesu ceisiadau – ni ddylid ystyried un ffactor yn derfynol;

- Amseriad y gwyliau bwriedig
- Hyd a phwmpas y gwyliau
- Hyd y gwyliau a'i effaith ar ddilyniant y dysgu
- Amgylchiadau'r teulu a dymuniadau'r rhieni
- Bydd lefel presenoldeb y disgybl hefyd yn cael ei ystyried
- Patrwm cyffredinol presenoldeb y disgybl

Ni ddylai rhieni ddisgwyl, na chael eu harwain i gredu, y bydd yr ysgol yn cytuno i wyliau teuluol yn ystod tymor ysgol. Dylai ysgolion atgyfnerthu'r ffaith hon yn rheolaidd gyda rhieni

5.5 Teithiau Tramor Estynedig

Wrth ddod i farn ynghylch absenoldeb estynedig disgyblion o deuluoedd lleiafrif ethnig, rhaid i ysgolion gymryd ystyriaeth o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar wyliau yn ystod tymor ysgol. Mae'n bwysig bod ysgolion yn dangos dealltwriaeth o safbwynt y rhieni, er na all yr ysgol efallai roi caniatâd i ymestyn yr absenoldeb. Dylwn ystyried y canlynol:

- Mae gan ymweld â theulu dramor arwyddocâd hollol wahanol i'r cysylltiadau arferol gyda 'gwyliau' sef y categori a adnabyddir gan Lywodraeth Cymru
- Gallai'r ymweliad fod yn bwysig iawn o ran hunaniaeth a hunan-barch y disgyblion wrth iddynt dyfu i fyny
- Efallai y bydd rhieni'n credu fod yr ymweliad yn bwysicach na thorri ar bresenoldeb eu plentyn yn yr ysgol - gall cynnal cysylltiadau teuluol olygu fwy o arwyddocâd a phwysau mewn rhai cymdeithasau nag y mae mewn nifer o gymdeithasau gorllewinol
- Efallai mai'r rheswm dros orfod ymweld â theulu dramor fydd salwch, profedigaeth ayyb.

6.0 Trefniadau Monitro Ysgol

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu pan fydd arweiniad gan yr awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru yn cael ei ddiweddarau, o leiaf bob tair blynedd gan y Dirprwy Bennaeth Cynhwysiad. Ym mhob adolygiad, bydd y polisi yn cael ei gymeradwyo gan Is-bwyllgor Ethos, Lles a Chymreictod y Llywodraethwyr.

Mae ein hysgol yn dal llawer iawn o wybodaeth am bresenoldeb fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio strategol a chyswllt effeithiol gyda'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad i reoli materion presenoldeb yn fwy effeithiol. Rydym yn defnyddio samplu wythnosol o'r data ar gyfer sesiynau penodol sydd yn ddefnyddiol i dynnu sylw at batrymau rheolaidd o absenoldeb ac fe allai ddatgelu, er enghraifft, bod cysylltiad gyda phynciau, athrawon neu grwpiau dysgu penodol. Gall dadansoddi o'r fath dynnu sylw at ddirywiad neu welliant ym mhresenoldeb disgyblion unigol a'n helpu ni i dargedu ymyrraeth yn fwy dewisol a'n helpu i ddarganfod achosion yr absenoldebau cyn iddynt ymwreiddio.

Bydd yr ysgol yn hunan arfarnu data presenoldeb yn barhaus trwy:

- Dadansoddi data presenoldeb
- Archwilio gweithdrefnau presennol

- Archwilio dogfennaeth sy'n ymwneud â phresenoldeb
- Asesu'r cyfathrebu gyda rhieni
- Ystyried strategaethau a ddefnyddir i hyrwyddo presenoldeb
- Werthuso'r ymateb i ymholiadau'r Awdurdod Lleol
- Adnabod anghenion hyfforddiant o fewn yr ysgol

6.1 Trefniadau Monitro Presenoldeb Disgyblion Unigol

Mae'r Tîm Cynhwysiad (Dirprwy Bennaeth Cynhwysiad/ Aweinwyr Cyswllt Blwyddyn/ Swyddogion Gweinyddol Blwyddyn) yn monitro absenoldebau disgyblion yn ddyddiol.

Mae disgwyl i riant/ofalwr ffonio'r ysgol erbyn 8.55 yn y bore os yw eu plentyn yn mynd i fod yn absennol.

Mae disgwyl i riant/ofalwr y disgybl ffonio'r ysgol yn ddyddiol yn ystod y cyfnod absenoldeb.

Os yw absenoldeb disgybl yn mynd yn uwch na 5 diwrnod heb ei awdurdodi (cod O/N), bydd yr ysgol yn cysylltu gyda rhiant/gofalwr trwy Lythyr Rhif 1 a threfnu *Cyfarfod Cychwynol Presenoldeb* i drafod y rhesymau am hyn a rhoi Cynllun Gwella Presenoldeb yn ei le. Cynhelir *Cyfarfod Adolygiad* ymhén pythefnos. Os yw absenoldeb disgybl yn parhau i gynyddu anfonir Llythyr Rhif 2 a byddwn yn cyfeirio'r achos at y Swyddog Lles Addysg.

Os oes gan ddisgybl fwy na 10 diwrnod o absenoldeb wedi ei awdurdodi (cod M/I), bydd yr ysgol yn gyrru *Llythyr Meddygol* i'r rhiant/gofalwr.

Mae protocolau clir yn eu lle ar gyfer delio ag absenoldeb parhaus.

Bydd data absenoldeb lefel-disgybl yn cael ei gasglu bob tymor a'u cyhoeddi ar lefel cenedlaethol ac awdurdod lleol drwy ddatganiadau ystadegau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar absenoldebau ysgol. Cyhoeddir y data absenoldeb lefel-ysgol gwaelodol ynghyd â'r ystadegau cenedlaethol. Bydd yr ysgol yn cymharu'r data presenoldeb gyda'r cyfartaledd cenedlaethol, ac yn rhannu hyn gyda'r Corff Llywodraethu.

Mae'r ysgol yn casglu ac yn storio data presenoldeb ac yn eu defnyddio i ddibenion mewnol er mwyn:

Tracio Presenoldeb Disgyblion Unigol

- mae cofrestru'n cael ei wneud yn electronig gan athro dosbarth ac athrawon pwnc yn unol â gofynion cofrestru cenedlaethol (sesiwn bore a sesiwn prynhawn Gwers 5)
- athrawon pwnc trwy 'Lesson Monitor' i sicrhau bod cofrestru yn digwydd ym mhob gwers
- mae'r Swyddogion Gweinyddol gyda chyfrifoldeb i gefnogi gweithdrefnau a systemau presenoldeb yn yr ysgol
- mae Swyddogion Gweinyddol yn sicrhau fod data presenoldeb yn cael ei gyflwyno a'i dderbyn drwy gydol y dydd i ddarparu trosolwg o bresenoldeb ysgol gyfan
- mae Swyddogion Gweinyddol yn mewnbwnnu a chofnodi manylion absenoldebau ble mae rhieni wedi cadarnhau absenoldeb heb ei gynllunio gyda'r ysgol erbyn 8.55am – rhennir y wybodaeth yma gyda'r staff perthnasol gan gynnwys Arweinwyr Cyswllt Blwyddyn
- ble nad oes eglurhad am absenoldeb heb ei gynllunio bydd y Swyddogion Gweinyddol yn cysylltu gyda'r rhiant/gofalwr trwy yrru neges destun i'r cartref trwy School Comms am 9.30 er mwyn derbyn cadarnhad pam fod y plentyn yn absennol.
- os na fydd y Swyddogion Gweinyddol wedi derbyn ymateb gan rieni trwy 'School Comms' erbyn 11.00 byddant yn ffonio'r rhiant/gofalwr gan wneud defnydd o'r holl rifau ffôn ar system yr ysgol.

- bydd y Swyddogion Gweinyddol yn uwchafu'r mater at yr Arweinwyr Cyswllt cyn 12.00 os ydynt wedi methu cael y wybodaeth trwy gysylltu â'r rhiant/gofalwr.
- bydd yr Arweinwyr Cyswllt yn cysylltu gyda'r rhiant/gofalwr ac yn penderfynu ar y ffordd orau i ymateb gan uwchafu'r mater at y Diprwy Bennaeth Cynhwysiad pe bai angen.

7.0 Cysylltiadau i bolisiau, gweithdrefnau a phrotocolau eraill

Mae'r polisi hwn yn cysylltu i'r dogfennau a ganlyn:

- Polisi Diogelu Plant Ysgol
- Polisi Ymddygiad Ysgol
- Polisi Gwrth-fwllo Ysgol
- Gweithdrefnau Presenoldeb Ysgol
- Protocol Presenoldeb Awdurdod Lleol
- Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Polisi Cydraddoldeb

7.1 Disgyblion yn Methu Addysg

Mae gan pob asiantaeth rôl glir i'w chwarae i helpu i ddod o hyd i blant sydd yn mynd ar goll o ysgolion yng Ngwynedd, neu sy'n mynd ar goll o ysgolion awdurdodau eraill sydd, efallai, wedi symud i Wynedd.

Gall rhieni/gofalwyr gynorthwyo gyda'r throsglwyddiad llyfn darpariaeth addysg eu disgyblion rhwng Gwynedd ac Awdurdodau Lleol eraill, ble mae angen symud am pa bynnag reswm, drwy hysbysu ysgol gofrestredig y plentyn.

Mae disgwyl i ysgolion ddilyn gweithdrefnau cyfatebol mewn perthynas â'r disgyblion hynny sydd wedi eu tynnu o'r ysgol gan eu rhieni heb bod ysgol enwebedig wedi ei darparu a'i chadarnhau ac yn dilyn gweithdrefnau Disgyblion yn methu addysg.

7.2 Diogelu

Rydym yn cymryd diogelu o'r pwys mwyaf yn ein hysgol. Mae cysylltiad clir rhwng diogelu a phresenoldeb sydd yn golygu bod angen i ni wybod ble mae ein disgyblion ar unrhyw amser yn ystod y diwrnod ysgol. Mae hyn, felly, angen cofnodi manwl gywir y cofrestr presenoldeb, cyfathrebiadau gan rieni a darparwyr allanol i egluro ble mae unrhyw rai sydd yn absennol. Byddwn yn dilyn prosesau diogelu cadarn wrth sicrhau bod hyn yn cymryd lle ac yn ymateb i unrhyw gyngor, cefnogaeth, arweiniad a mecanweithiau cofnodi yn ôl yr angen.

7.3 Addysg Gartref Dewisol

Rhieni a gofalwyr sydd â'r prif gyfrifoldeb am sicrhau bod eu plentyn yn derbyn addysg briodol ac mae rhai yn dewis cyflawni'r ddyletswydd hon trwy ddewis addysgu gartref.

Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau eu bod yn derbyn cais ysgrifenedig i addysgu gartref gan y rhieni neu gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant. Ar dderbyn yr hysbysiad hwn, mae'n rhaid i'r ysgol gwblhau Ffurflen Addysg Ddewisol yn y Cartref a'i gyrru at y Swyddog Lles Addysg.

Am wybodaeth bellach cyfeiriwch at arweiniad Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ar addysgu plentyn gartref.

7.4 Bwlio / Strategaethau Gwrth-fwlio

Bydd ein hysgol yn ystyried y posibilrwydd o bresenoldeb gwael oherwydd bwlio. Bydd yr ysgol yn mynd i'r afael â'r sefyllfa ar fyrder trwy fabwysiadu gweithdrefnau ac arferion mewn ymagwedd ysgol gyfan i fwlio. Mae gan yr ysgol bolisi gwrth-fwlio a byddwn yn ystyried pob posibilrwydd o fwlio trwy ymchwilio i absenoldebau.

7.5 Plant Mewn Gofal

Mae ein hysgol, ochr yn ochr â'r Awdurdod Lleol, yn ymrwymedig i sicrhau'r deilliannau addysgol gorau posib ar gyfer 'Plant Mewn Gofal' (PMG). Mae'n credu bod presenoldeb rheolaidd, prydlon, a di-dor yn yr ysgol yn hanfodol i helpu i sicrhau bod Plant Mewn Gofal yn gallu gwneud y gorau o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt.

8.0 Trosglwyddiad Cynradd/Uwchradd

Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â'n ysgolion cynradd er mwyn rhannu gwybodaeth a sicrhau gweithredu presenoldeb positif

- Ymwelir ag ysgolion cynradd i sicrhau fod cefnogaeth i bob disgybl wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.
- Systemau i fonitro ac adolygu cynnydd disgyblion blwyddyn 7.
- Cyswllt effeithiol hefo'r Swyddog Lles Addysg sy'n gyfrifol am yr ysgol a'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol.
- Adnabod disgyblion bregus/mewn risg ym mlwyddyn 6 a hysbysu Arweinydd Cyswllt Blwyddyn 7 cyn i'r disgyblion drosglwyddo.
- Cynnwys yr ysgol gyfan wrth gymryd cyfrifoldeb am gynorthwyo disgyblion newydd yn cynnwys systemau bydi rhwng disgyblion y 6ed Dosbarth a disgyblion blwyddyn 7.
- Trefnu gweithgareddau trosglwyddo gan gynnwys fideo trosglwyddo, diwrnodau blasu, ymweliadau â'r Ysgolion Cynradd gan Arweinydd Cyswllt Blwyddyn 7, Pennaeth Blwyddyn 7, Pennaeth Cynorthwyol (Safonau CA3) a'r Cydlynnydd ADY.
- Cynnwys rhieni blwyddyn 6/7 o'r cychwyn cyntaf e.e. nosweithiau agored, nosweithiau trosglwyddo a noson agored ychwanegol i flwyddyn 7 (Tachwedd).
- Casglu barn disgyblion Blwyddyn 7 y flwyddyn blaenorol o unrhyw drafferthion.

9.0 Integreiddio yn dilyn absenoldeb tymor hir

- Bydd croeso a chefnogaeth i'r disgybl bob amser.
- Bydd yr Arweinydd Cyswllt yn cefnogi'r disgybl pan yn dychwelyd.
- Byddant yn trafod rhesymau dros absenoldebau, ac o bosib yn gwneud newidiadau i atal anawsterau pellach.
- Byddant yn trafod cytundeb/contract disgybl yn cynnwys amcanion a thargedau a dyddiadau adolygu.
- Trafod a chynhyrchu amserlen unigol, ac yna ei hadolygu.
- Sefydlu amserlen rhan amser ddechreuol.
- Sicrhau fod yr holl staff yn ymwybodol o'r disgyblion sy'n ail-integreiddio ar ôl absenoldeb.

10.0 Disgyblion – Dal i fyny gyda gwaith

- Bydd y Swyddog Gweinyddol o dan arweiniad y Pennaeth Blwyddyn yn trefnu/gyrru gwaith ar gyfer y disgyblion sy'n absennol o'r ysgol am gyfnodau estynedig neu ar waharddiad tymor penodol a chadw cofnod o'r gwaith a anfonir.
- Bydd y Swyddog Gweinyddol yn dosbarthu unrhyw waith papur a dderbynir gan ddisgyblion i'r athrawon priodol iddo gael ei farcio/asesu.
- Bydd y Pennaeth Blwyddyn yn monitro y sefyllfa a'r athro pwnc yn marcio/asesu y gwaith sydd yn cael ei gyflwyno.
- Os bydd gan y disgybl brofion neu arholiadau byddwn yn ystyried yr absenoldeb wrth asesu y gwaith.
- Wrth ddychwelyd yn ôl i'r ysgol, byddwn yn ystyried y bwlch yn y dysgu a llunio pecyn cefnogaeth i gau'r bwlch hwn.



ATTENDANCE AND PUNCTUALITY POLICY

Ysgol Syr Hugh Owen

Signature of Chair:

Date Adopted:

06/11/2026

Review Date:

06/11/2028

ATTENDANCE AND PUNCTUALITY POLICY

INTRODUCTION

This policy was produced in order to explain to all those associated with the school, the rights, responsibilities and rules with regard to attendance for pupils in a school.

The school believes that regular attendance is key to ensuring that pupils receive an appropriate education and receive the greatest benefit from the educational opportunities offered to them. There are strong statistical links between attendance and achievement and an absence from school can have a detrimental effect on pupils' progress. As well as helping pupils to fulfil their potential, supporting the pupils who miss school is key to protecting and safeguarding them. The inclusion team and administrative officers will all cooperate in order to monitor the attendance of every pupil and to assist pupils in order to ensure regular attendance in the school.

Celebrating success is part of this school's policy. Attendance is a critical factor for a productive and successful school career. The school will encourage and promote full, 100%, attendance, by all its pupils.

1. Aims

The main purpose of this policy is to:

- Convey the school's values and expectations with regard to matters pertaining to attendance and punctuality.
- Promoting good attendance and reducing absence, including persistent absence.
- The School will give a high priority to conveying to parents and pupils the importance of regular and punctual attendance. We recognise that parents have a vital role to play and there is a need to establish strong home-school links and communication systems that can be utilised whenever there is concern about attendance.
- Ensure that all pupils receive an equal opportunity to succeed to the best of their ability whatever their social background.
- Assist pupils to attend school and to actively remove those factors which prevent pupils from learning and taking part through cooperating with the parents and young people to solve the problems effectively.
- Outlining the school's operating procedure when responding to a lack of attendance.

2. Rights, Responsibilities and Expectations

This policy meets the requirements of the All Wales Attendance Framework. These documents are drawn from the following legislation setting out the legal powers and duties that govern school attendance:

- Education Act 1996
